



**CARCHAR EI MAWRHYDI BRYNBUGA A PRESCOED**

# **Adroddiad Blynyddol**

**2015 / 2016**

**MEHEFIN 2016**

## **Adran 1**

### RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Lloches a Mewnfudo 1999 yn gofyn bod pob carchar ac IRC yn cael eu monitro gan Fwrdd annibynnol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol / Y Gweinidog dros Gyfiawnder, o blith aelodau o'r gymuned ble mae'r carchar neu ganolfan wedi'i lleoli.

Mae'r Bwrdd yn benodol gyfrifol am :-

1. Fodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog a chyfiawn y sawl a gedwir yn y ddalfa o fewn ei carchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
2. Rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu sy'n briodol, am unrhyw bryderon.
3. Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai sydd yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar.

## Adran 2

### CYNNWYS

Disgrifiad o'r Carchardai	Adran 3
Crynodeb Gweithredol	Adran 4
Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Adran 5
Addysg, Dysgu a Sgiliau	Adran 6
Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl	Adran 7
Gweithgarwch Pwrpasol	Adran 8
Ailsefydlu	Adran 9
Diogelwch a Dalfa Fwy Diogel	Adran 10
Gwasanaethau Preswyl	Adran 11
Rhaglenni	Adran 12
Amser allan o'r Gell	Adran 13
Enghreifftiau o Ragoriaeth	Adran 14
Meysydd Pryder	Adran 15
Ystadegau'r Bwrdd	Adran 16

### **Adran 3**

#### DISGRIFIAD O'R CARCHAR

3.0 Mae Carchar Brynbuga a Prescoed wedi ei leoli ar dri safle. Mae Carchar Brynbuga yn garchar Categori C yn nhref Brynbuga, mae Carchar Prescoed yn garchar Categori D yn ardal Prescoed, ac mae fferm carchar newydd Cilwrgi ychydig filltiroedd i ffwrdd yng Nghoed-y-Paen. Mae rhai o'r carcharorion o Prescoed yn gweithio ar y fferm. Caiff y carcharorion ym Mrynbuga a Phrescoed eu cefnogi gan Swyddogion Personél, gweithwyr Achos, Adran Seicoleg, tîm Camddefnyddio Sylweddau, y Gaplaniaeth, Adran Gofal Iechyd a Thîm Ailsefydlu. Mae Gofal Iechyd yn cynnig cyfleuster gofal dydd ym Mrynbuga a Phrescoed, ond nid oes gwllâu ar gyfer cleifion mewnol. Mae gan Garchardai Brynbuga a Phrescoed lyfrgelloedd a champfeydd, ac mae gan Prescoed gapel aml-ffydd hefyd.

3.1 Agorodd Carchar Brynbuga yn 1844 ac mae'n adeilad hen ffasiwn gyda thri phrif adenydd yn deillio o bwynt reolaeth ganolog. Fe grogodd carcharor am y tro diwethaf ym 1961, ac roedd yn llety i Rudolph Hess ar gyfer rhan o'r Ail Ryfel Byd. Mae bellach yn garchar Categori C i ddynion sy'n dal carcharorion agored i niwed: gyda'r mwyafrif yn droseddwr rhyw. Codwyd y Llety Tybiannol Ardystiedig (CNA) o 266 i 276 yn 2015. Mae'r Rhaglen Trin Troseddwr Rhyw (SOTP) ar gael i bob carcharor, ac mae yna Adran Addysg ffyniannus.

Amcanion y carchar yw dal carcharorion yn ddiogel, a darparu sefydliad trefnus lle mae carcharorion yn cael eu trin yn drugarog a gyda gwedduster a pharch. Bwriad y gyfundrefn strwythuredig yw paratoi carcharorion ar gyfer rhyddhad diogel, a lleihau'r risg o aildroseddu. Mae gweithdai gwaith saer, gosod brics a phlastro yng Ngharchar Brynbuga.

3.2 Mae Carchar Prescoed wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ar safle blaenorol y Sefydliad Troseddwr Ifanc a agorodd ym 1939, tua thair milltir o Frynbuga. Mae bellach yn garchar adsefydlu Categori D a chododd y CNA o 230 i 260 erbyn 2015. Mae'r gyfundrefn ym Mhrescoed wedi ei gynllunio i adsefydlu ac addysgu trwy gynllun dedfryd strwythuredig a chynllun adsefydlu; ac i hyrwyddo gostyngiad yn y risg y bydd carcharorion yn aildroseddu pan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau. Mae cyfleoedd ar gael ar gyfer addysg, hyfforddiant a lleoliadau gwaith, ac mae adnoddau yn cael eu dyrannu i adsefydlu carcharorion. Mae'r gyfundrefn a sefydlwyd ym Mhrescoed wedi cynnwys amrywiaeth o ddiwydiannau a gweithgareddau ac mae'n parhau heddiw wrth iddo edrych i gynyddu nifer y lleoliadau gwaith addas.

Gall y Bwrdd adrodd mai ychydig iawn o ddianc a methiannau ROTL oedd yno yn ystod y cyfnod.

Mae hyn yn adlewyrchu cyfradd llwyddiant y mae'r carchar yn naturiol yn falch ohono, yn enwedig wrth ystyried faint o drwyddedau dros dro sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Mae pob carcharor sy'n dianc yn cael eu dychwelyd i amodau caeëdig. Mae absenoldebau anawdurdodedig eraill yn amodol ar y broses ddyfarnu ac mae camau gweithredu cadarn yn cael eu cymryd (e.e. colli breintiau).

3.3 Mae fferm Cwilgiri yn cynnwys 460 erw, o'r rhain mae 160 erw yn goetir, yn ogystal ag amrywiaeth o dai allan. Mae gan y fferm fuches laeth ffyniannus a haid o ieir. Mae nifer o gyfleoedd

hyfforddi ar gyfer carcharorion, e.e. parlwr godro, rheoli buches, magu anifeiliaid, ffermio tir âr, gweithgareddau melin lifio, sgiliau sylfaenol ar beiriannau fferm. Ar gyfartaledd, mae rhwng 15 a 25 o garcharorion yn gweithio ac yn hyfforddi ar y fferm bob dydd. Yn dilyn y cyfnod adrodd diwethaf bu newidiadau yn rheolaeth y fferm, penodwyd swyddog garddwriaethol ac mae gwelliannau yn y tai gwydr, gan gynnwys polytwnneli wedi cael eu gosod ac mae'r rhagolygon ar gyfer hyfforddiant ar y fferm wedi gwella'n fawr. Mae'r fferm wedi ei ddynodi yn ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSI).

#### **Adran 4**

##### CRYNODEB GWEITHREDOL

- 4.1 Mae'r newidiadau i uwch reolwyr a'r diffygion mewn rhai swyddi wedi bod yn bryder o ran cyfathrebu â'r bwrdd ac wrth symud ymlaen gyda datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y carchar.
- 4.2 Mae llwyddiant y Fferm o ran garddwriaeth a hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth wedi bod yn un o'r uchafbwyntiau eleni.
- 4.3 Ymddengys bod ymglymiad carcharorion, hyfforddwyr ac asiantaethau allanol yn y cwrs camddefnyddio sylweddau yn cael canlyniadau cadarnhaol. Mae'r bwrdd yn gobeithio y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw gyllid sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect hwn.
- 4.4 Mae'r bwrdd yn parhau i recriwtio aelodau newydd. Fe gynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus gyda rhyw 16 ymgeisydd. Gobeithiwn y bydd y niferoedd a gytunwyd arnynt yn eu lle erbyn hydref 2016.

#### **Adran 5**

##### CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

Penodwyd Swyddog Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn. Mae'n gyfrifol am Frynbuga a Phrescoed. Mae cyfarfodydd amrywiaeth a chdraddoldeb wedi digwydd bob chwarter. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cael eu cadeirio gan amryw lywodraethwyr y carchar ac mae cynrychiolwyr carcharorion wedi mynychu o Frynbuga a Phrescoed, gyda swyddog o raddfa llywodraethwr yn dod gyda'r carcharor o'r ail sefydliad. Mae'n anffodus bod braidd dim cynrychiolaeth oddi wrth Gofal Iechyd, Arlwyo a Dysgu a Sgiliau er gwaethaf sicrhad y Cadeirydd ym mhob cyfarfod y byddant yn mynychu yn y dyfodol.

Mae'r pwyllgor yn rheoli ac yn monitro materion sy'n ymwneud â thriniaeth gyfartal o garcharorion ac mae'r Swyddog Cydraddoldeb yn cyflwyno adroddiad ym mhob cyfarfod. Mae aelod o'r IMB yn cael ei wahodd ac mae cynrychiolwyr carcharorion yn mynychu o grwpiau lleiafrifol o fewn y boblogaeth. Mae eu cynrychiolwyr yn berthnasol ac yn adeiladol. Mae materion a gododd yn ystod y cyfnod rhwng cyfarfodydd yn cael eu trafod. Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan reolwr a chamau gweithredu yn cael eu gosod a, ble fo'n bosib, mae gwelliannau'n cael eu cytuno.

Mae'r Swyddog Cydraddoldeb wedi trefnu rhaglen dreigl gynhwysfawr a llwyddiannus o fforymau amrywiaeth ym Mrynbuga. Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i gynnig y cyfle i garcharorion Prescoed gymryd rhan mewn fforymau 'galw heibio' ond heb lawer o lwyddiant.

Mae materion cydraddoldeb yn cael eu cofnodi a'u monitro gan y Swyddog Cydraddoldeb ond ble mae adroddiadau digwyddiadau gwahaniaethu [DIRF] wedi cael eu derbyn, mae'r rhain yn cael eu hymdrin gan y Swyddog Cydraddoldeb sy'n adrodd i uwch aelod o staff i'w archwilio, gan adrodd yn ôl ar unrhyw ganfyddiadau ar eu rhan. Mae unrhyw adroddiad o'r math hwn wedi cael ei fonitro a'i lofnodi gan aelod perthnasol yr IMB.

## **Adran 6**

### **ADDYSG, DYSGU A SGILIAU**

1. Roedd y Rheolwr ar secondiad i NOMS ym Mhencadlys Cymru i archwilio i ba raddau mae Cynlluniau Iaith yn cael eu rhoi ar waith mewn carchardai ac yn y ddalfa. Gorffennaf 2015 – Chwefror 2016. Cynhyrchwyd adroddiadau a chynlluniau gweithredu ar gyfer pob carchar gan gynnwys carchar y Parc ac Uned Gyflenwi Leol y ddalfa.
2. Wedi dychwelyd o'r secondiad, fe gynhaliodd yr adran arolwg o'r cwricwlwm gan gymryd barn y dysgwyr a'r staff i ystyriaeth. Mae'r cwricwlwm wedi cael ei adnewyddu i fodloni anghenion y dysgwyr yn y modd gorau a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff.
3. Cwblhawyd yr Adroddiad Hunanasesu (SAR) ym mis Ebrill 2016 ac fe'i gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.
4. Ffurfiwyd grŵp rheoli cyfranogol yn cynnwys dau aelod o staff ynghyd â phedwar dysgwr. Mae hwn yn y cyfnod cynnar ond y gobaith yw, trwy gynnwys dysgwyr yn y broses rheoli, y byddwn yn gallu bodloni anghenion y boblogaeth o ddysgwyr yn well.
5. Mae Cynllun Darllen Ymddiriedolaeth Shannon yn parhau i fod yn llwyddiant ac mae elusen maths 121 sy'n debyg i Ymddiriedolaeth Shannon hefyd yn llwyddiannus iawn ym Mrynbuga.
6. Fe gawsom gystadleuaeth celf a chreffft hyfryd ar ddydd Gŵyl Dewi.
7. Mae sicrwydd staff wedi bod yn uchel, sy'n effeithio ar ddsbarthiadau oherwydd does dim staff sbâr i gyfro gwersi.
8. Mae'r tiwtor torri gwallt dynion wedi ymddiswyddo felly rydym yn caniatáu i wasanaeth dan reolaeth carcharorion barhau i gynnig gwasanaeth torri gwallt i ddynion ym Mhrescoed. Bydd cyfarfod gyda staff Coleg Gwent i ddarparu cymwysterau C&G ar gyfer y carcharorion yn cael ei gynnal.
9. Cynhaliwyd ymweliad sicrwydd gan NOMS yng Nghymru yn ddiweddar a bydd cynllun gweithredu yn deillio o hyn i lenwi unrhyw fylchau a adnabuwyd.

## **Adran 7**

### **GOFAL IECHYD**

Mae'r IMB yn aelod gweithgar o'r Bwrdd Partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Charchardai Brynbuga a Phrescoed. Wrth gynnal rôl arsylwadol mae galw rheolaidd ar yr IMB i leisio safbwynt annibynnol ar y pynciau dan sylw. Mae'n amlwg bod amryw elfennau o'r gofal iechyd wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf mewn ymateb i newidiadau ym mhoblogaeth y carchar. Ym Mrynbuga, yn benodol, mae poblogaeth y carchar yn heneiddio a gyda hynny daw anghenion gofal iechyd cysylltiedig h.y. asthma, pwysedd gwaed uchel, materion symudedd a llawer mwy. Oherwydd

bod dim darpariaeth gofal iechyd llawn amser yn y carchar(dai), mae derbyniadau ysbyty yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn gofyn bod dau swyddog carchar yn eu hebrwng ar bob adeg, sy'n cael effaith sylweddol ar drefn gyffredinol y carchar, yn aml yn arwain at fwy o amser yn y gell.

Mae gwaith sylweddol yn parhau gyda'r cyflwyniad o bolisi dim ysmegu o fewn y carchardai. Mae Brynbuga wedi bod yn cynnal peilot o reoli'r gwaith o gyflwyno'r polisi newydd o fewn ystâd Cymru. Ar ben hynny, mae dull amlasiantaeth yn cael ei fabwysiadu i baratoi carchardai ar gyfer y Ddeddfwriaeth newydd ar Ofal Cymdeithasol.

O ystyried bod cymaint o newidiadau o fewn y carchar, mae staff gofal iechyd yn darparu gwasanaeth da iawn gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ganddynt. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd newidiadau i'r gwasanaeth ffisiotherapydd (bellach yn fewnol), clefyd y siwgr, sganio gwaed ac esgyrn ac ymgyrch MMR ar gyfer y sawl a aned ar ôl 1970.

Rhagwelir y bydd angen gweithwyr allanol a gwasanaeth 7 diwrnod o bosib yn y dyfodol.

## **Adran 8**

### **GWEITHGARWCH PWRPASOL**

Mae'r rhaglen o weithgarwch pwrpasol wedi parhau yn y tri safle.

Mae'r cyfleoedd hyfforddiant a gyflwynwyd gan reolwr y fferm wedi bod yn boblogaidd. Mae hyfforddiant JCB a cherbydau fforch godi yn boblogaidd ymhlith y carcharorion sy'n ei ystyried yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau cyflogaeth ar ôl eu rhyddhad. Mae'r cyfle i ennill sgiliau magu anifeiliaid a chynnal tir â'r yn parhau i wneud y fferm yn adnodd hyfforddiant gwerthfawr.

Ym Mhrescoed bydd mwy o gyfleoedd garddio nawr bod y twnelau polythen wedi cael eu gosod. Mae hyn yn eistedd ochr yn ochr â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y ceginau ac mae'n gysylltiedig â bwyty The Clink yng Nghaerdydd.

O ganlyniad i gyflwyno diwrnod craidd ym Mrynbuga, mae'r gweithgareddau bellach yn cynnwys: band, côr, un i un, pêl-droed cerdded, cyn filwyr, troi tudalennau (cymorth darllen), a grŵp crefyddol.

## **Adran 9**

### **ADSEFYDLU**

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r carchar wedi bod yn rhan o'r gwaith llwyddiannus o gyflwyno rheoliadau newydd ROTL. Ar y cychwyn, arweiniodd hyn at ostyngiad yn y niferoedd yn gweithio allan yn y gymuned oherwydd oedi gyda hyd estynedig yr 'amser gorwedd' cychwynnol wrth gyrraedd ym Mhrescoed. Mae'r niferoedd sy'n gweithio allan yn y gymuned bellach wedi codi i'r lefel cyn newidiadau ROTL gyda thua 100 i 115 yn gweithio allan ar unrhyw adeg (77 di-dâl/gwirfoddol a 28 â thâl).

Maen nhw'n parhau i weithio'n llwyddiannus gyda bwyty The Clink yng Ngharchar Caerdydd ac mae rhai llwyddiannau wedi bod gyda charcharorion yn symud ymlaen i gyfleoedd gwaith â thâl yn dilyn y

lleoliad hwn.

Bellach mae chwe chyflogwr mawr yn cymryd carcharorion am gyfnod prawf sy'n arwain at waith â thâl os yw'r canlyniad yn llwyddiannus ac mae nifer fawr o garcharorion mewn swyddi untro â thâl ac maen nhw'n bwriadu parhau gyda'r rhain ar ôl eu rhyddhad. Mae'r ffigurau ar gyfer cyflogaeth hunan ddatganedig ar ôl rhyddhau yn parhau yn uchel.

Yn ystor y 12 mis diwethaf, mae'r carchar wedi ymrwymo gyda nifer o gyflogwyr allanol ar sail wirfoddol sy'n cefnogi lleoliadau Cyfiawnder Adferol/Arfer Adferol gan gynnwys yr heddlu, Kaleidoscope a Drug Aid a bellach mae nifer o garcharorion yn gweithio yn y maes hwn ar sail wirfoddol ac yn derbyn hyfforddiant.

Mae trefniadau ymgeisio ffurfiol ar gael gwaith â thâl wedi cael eu cyflwyno gyda chysylltiadau cwmni'r carchar.

Mae hyn wedi cael ei wneud mewn cydweithrediad â Dysgu a Sgiliau sy'n hwyluso'r carcharorion wrth iddynt gwblhau CVs a cheisiadau ac yna eu hanfon ymlaen yn electronig i'r carchar er mwyn iddynt allu eu hanfon i gyflogwyr.

## **Adran 10**

### **DIOGELWCH**

Mae aelod o'r IMB yn mynychu cyfarfodydd diogelwch yng Ngharchardai Brynbuga a Phrescoed. Mae cyfarfodydd gweithredol gyda chynrychiolwyr o amrediad o adrannau o fewn y sefydliadau ac mae'r rhain yn ystyried goblygiadau diogelwch yr holl weithgareddau yr ymgymeirir â hwy. Roedd archwiliad diogelwch yn foddhaol a ni ddangoswyd unrhyw resymau arwyddocaol yn ymwneud â materion gweithredu. Mae cyswllt gyda Heddlu Gwent yn rhan bwysig o'r cyfarfodydd hyn ac yn rhoi cyfle i gyfnewid gwybodaeth berthnasol. Awgryma goruchwyliaeth agos, gan yr IMB, er gwaethaf natur wahanol y ddau garchar, does dim rhesymau arwyddocaol am bryder yn ymwneud â diogelwch ym Mrynbuga neu Prescoed. Y nodau diogelwch yw

- 1] Materion Dianc/Dihengyd/ROTL
- 2] Rheoli Anhrefn
- 3] Lleihau Trosedd
- 4] Cyffuriau/Alcohol/Baco
- 5] Amddiffyn y Cyhoedd
- 6] Nwyddau
- 7] Terfysgaeth/Eithafiaeth

### **CYNLLUNIAU WRTH GEFN**

Mae gan Frynbuga a Phrescoed amrediad llawn o gynlluniau wrth gefn. Mae gan Frynbuga system drefnus gyda dogfennaeth gyfredol sy'n cael ei weithredu o bryd i'w gilydd. Mae'r IMB yn cael ei wahodd i fynychu'r ymarferion wrth gefn.



## **DALFA FWY DIOGEL (BRYNBUGA)**

Cynhelir cyfarfodydd misol i hyrwyddo'r holl faterion yn ymwneud â Dalfa Fwy Diogel. Mae cynrychiolwyr o'r Samariaid, y Grŵp Gwrando, y Cynllun Ffrindiau, yr IMB a swyddogion yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r cyflwyniad o Gynllun Ffrindiau yn ymddangos yn hynod boblogaidd i garcharorion hŷn neu'r sawl gydag anabledau. Mae tua 18/20 carcharor yn derbyn cefnogaeth gydag amrywiaeth o dasgau, e.e. cymorth gofal iechyd, casglu cyflenwadau o'r ffreutur, glanhau celloedd, cymorth gyda symudedd a derbyn prydau bwyd. Mae'r holl weithgareddau'n cael eu cofnodi a'u monitro.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae gwrandawyr wedi treulio cyfartaledd o 63 awr y mis yn cynorthwyo carcharorion. Mae eu hystod o gefnogaeth hefyd yn helaeth ac yn cynnwys carcharorion sy'n dioddef o feddyliau am hunanladdiad, hunan-niwed, bwlio ac ati, oherwydd pwysau eraill o fewn y carchar does dim ystafell wrando bellach ym Mrynbuga ac mae'r gwrandawyr a'r carcharorion oll yn ei golli.

Mae'r grŵp gwrandawyr a'r cynllun ffrindiau yn darparu cefnogaeth werthfawr ar gyfer y carcharorion ym Mrynbuga. Mae'r IMB yn canmol y gwaith maen nhw'n ei wneud ond byddant yn parhau i fonitro er mwyn sicrhau eu bod ddim yn cyflawni unrhyw gyfrifoldebau y dylid cael eu gwneud gan y staff.

## **ARWAHANU**

Fel carchar sy'n delio gyda Charcharorion Agored i Niwed a Throseddwy'r Rhyw, nid oes gan Frynbuga Uned Arwahanu.

### **Adran 11**

Gwasanaethau Preswyl.

**Bwyd.** Mae bwyd yn cael ei baratoi a'i goginio ar gyfer dau safle'r carchar ym Mhrescoed. Mae chwe aelod o staff a hyd at 22 carcharor yn y gegin. Mae'r carcharorion cyfredol yn gydwybodol ac yn mynychu ond mae grwpiau eraill wedi bod llai felly a gall hyn gael effaith andwyol ar lefelau gwasanaeth. Mae staff yn ymddangos yn frwdfrydig i ddarparu'r prydau bwyd gorau posib o fewn y gyllideb ac yn rhyngweithio gyda'r carcharorion gyda pharch a thegwch. Mae'r bwrdd yn monitro'r gegin bob wythnos.

Bu materion ansawdd bwyd sylweddol yn y gorffennol. Ym mis Mai 2015, fe wnaeth y Llywodraethwr bwynt o nodi hyn, gan orchymyn:

Adolygiad gan gymheiriaid gan reolwr arlwyo Carchar Caerdydd.

Adolygiad mewnol o reoli arlwyo.

Ers rhoi'r gwerthusiadau hyn ar waith, mae gwelliant cyffredinol wedi bod yn ansawdd y prydau bwyd ac mae gostyngiad wedi bod yn nifer a brwdfrydedd y cwynion. Mae'r fwydlen newydd archebu ymlaen llaw 5 dewis 'Cymru Gyfan' wedi bod ar gael ers mis Mai 2015.

Mae camgymeriadau yn dal i ddigwydd o bryd i'w gilydd. Dwy esiampl:

Dim digon o fwyd amser cinio yn cael ei anfon i Garchar Brynbuga, gan achosi oedi hir. (Mehffin 2015). Roedd yn ddadlennol nodi bod y broblem hon wedi cael ei oresgyn gyda hiwmor gan staff a charcharorion Carchar Brynbuga - sy'n awgrymu ansawdd y berthynas yn y carchar hwn. (Mawrth 2016) Cafwyd sawl cwyn am selsig bach iawn. Mewn gwirionedd, ymddengys yr achosir y broblem hon gan gyfarwyddbau prynu y tu allan i reolaeth staff lleol. Fe brynwyd y selsig o restr gymeradwy safonol ond wrth eu coginio, fe ddarganfuwyd eu bod yn cynnwys llawer o ddŵr a braster. O ganlyniad, roeddent llawer yn llai cyn eu gweini i garcharorion.

Pwyntiau eraill i'w nodi:

Mae carcharorion yn gallu gweithio ar gyfer NVQs tra'n gweithio yn y gegin ac mae'r staff yn awyddus i helpu.

Mae sesiynau blasu ac adborth yn cynnwys pump neu chwe charcharor yn cael eu cyflwyno.

Amodau'r adran arlwyo. Mae cegin Prescoed tua dwy flwydd oed. Bu nifer o broblemau cychwynnol ac ymddengys bod y gosodwr Kier wedi bod yn rhyfeddol o araf yn mynd i'r afael â hwy. Tra bod hyn bellach wedi cael ei ddatrys (ym mis Mawrth 2016), cafodd y gwaith i ddatrys y problemau ei rwystro oherwydd bod y contractwr yn gwrthod derbyn cyfrifoldeb o dan warant. Er enghraifft:

Cafodd gorchudd draen diffygiol yn yr ardal paratoi bwyd a gyflwynodd materion lechyd/Diogelwch ac Atebolrwydd clir ei ddatrys yn rhannol yn unig yn dilyn cyfarfod ar y safle. Fe wnaethpwyd "gwaith trwsio dros dro" anfoddhaol, sydd bellach yn ymddatod.

Gorchuddion draeniau o flaen ffyrnau poeth sy'n gallu achosi i staff a charcharorion faglu.

Bydd yr IMB yn parhau i fonitro cyflwr y gegin a'r atgyweiriadau yn wythnosol.

**Adeiladau:** Mae Brynbuga yn garchar rheiddiol 19<sup>eg</sup> Ganrif, er hyn mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus. Mae'n anffodus nad yw ei defnydd presennol yn caniatáu i garcharorion fwyta gyda'i gilydd.

**Adeiladau:** Mae Prescoed yn garchar agored modern. Yn gyffredinol mae'r naw uned un llawr yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r llall, Uned Lester sydd â dwy lawr, yn edrych yn fwy di-raen ac â nifer gyfyngedig o gawodydd (4 ar gyfer 40 charcharor) ac mae'r Bwrdd yn deall bod y rhain yn aml wedi blocio ac mae un ohonynt yn aml yn methu â gweithio.

Ar yr adeg o ysgrifennu (5.5.2016) roedd uned Ford wedi bod heb ddŵr am tua phedair wythnos. Golyga hyn bod angen i garcharorion ddefnyddio'r cawodydd yn yr unedau eraill.

## **Adran 12**

### **RHAGLENNI BRYNBUGA**

Cyflwynir yr amrediad llawn o raglenni i drin troseddwyd rhyw ym Mrynbuga.

Mae rhaglen newydd wedi'i hanelu at y carcharorion hynny sy'n gwadu neu sydd ar ddedfrydau IPP yn cael ei gyflwyno o'r enw The Horizon Programme.

### **Rhaglenni Prescoed**

Mae parhad y rhaglen camddefnyddio sylweddau ym Mhrescoed sy'n arwain at gymwysterau ffurfiol ar lefel 3 City and Guilds wedi bod yn hynod lwyddiannus. Erbyn hyn mae'r cwrs wedi rhedeg ddwywaith gyda 24 unigolyn yn cymryd rhan, gydag 20 wedi cwblhau'r cwrs ac ennill cymhwyster City and Guilds. Mae 5 arall wedi cwblhau cwrs cyngori. Ers cwblhau'r cwrs, mae 6 unigolyn wedi cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned ac mae 5 ohonynt bellach mewn cyflogaeth lawn amser gyda 3 ohonynt yn gwirfoddoli gyda gwasanaethau cyffuriau ac alcohol lleol. Hyd yma does dim tystiolaeth o atgwmpo. O'r sawl sy'n weddill, mae 2 ar leoliad gyda'r YOT lleol, 1 ar leoliad gyda phrosiect ieuencid, 1 ar leoliad gyda'r llys ynadon lleol, 3 ar leoliad gyda chanolfan driniaeth gyffuriau lleol, gydag eraill yn aros am gyfle i fynd ar leoliad. Roedd holiadur a gwblhawyd gan aelodau'r cwrs yn hynod ganmoliaethus am bob agwedd.

### **Adran 13**

#### **AMSER ALLAN O'R GELL**

Mae hyn wedi lleihau yn ddiweddar oherwydd nifer yr hebryngwyr yn mynd allan oherwydd pryderon iechyd gwael gan arwain at fwy o amser yn cloi'r celloedd.

BRYNBUGA

PRESCOED

08.00 - 18.00

Symud yn rhydd ar ôl Cofrestr 06.00  
Dychwelyd i'w Uned bersonol erbyn 22.00

### **Adran 14**

#### **ENGHREIFFTIAU O RAGORIAETH**

- 1] Mae parhad y dyddiau teulu a gwelliannau i ymwelwyr wedi cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi gan y carcharorion.
- 2] Mae'r gwaith o gwblhau twnelau polythen wedi gwella'r cyfleoedd yn yr ardal arddwriaethol ar gyfer y carcharorion ac ar gyfer rhedeg y carchar yn sylweddol
- 3] Mae llwyddiant y cwrs Cyffuriau ac Alcohol ym Mhrescoed wedi gwella cyfleoedd ar gyfer y nifer uchel o garcharorion â hanes o gamddefnyddio sylweddau

### **Adran 15**

#### **MEYSYDD O BRYDER**

1. Mae dal yn fater o bryder bod carcharorion ym Mrynbuga yn gorfod bwyta eu pryddau yn eu celloedd. Nid oes modd dod o hyd i unrhyw ardaloedd bwyta ar y cyd.

2. Bydd ymwneud pob adran o'r carchar mewn materion o Gydraddoldeb a Chynhwysiant yn cael ei hannog yn weithredol yn y flwyddyn adrodd nesaf.
3. Bydd datblygiad System Gofal Iechyd 7 niwrnod o fewn y carchardai yn dod yn flaenoriaeth gyda datblygiad Deddfwriaeth Gofal Iechyd a'r boblogaidd yn heneiddio ym Mrynbuga.
4. Bydd newidiadau i amllder 'amser gorwedd' ym Mrynbuga yn cael eu hannog a'u monitro.
5. Yn gyffredinol, nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon difrifol gyda sut mae Brynbuga a Phrescoed yn cael eu rhedeg.

### **Adran 16**

<u>YSTADEGAU'R BWRDD</u>	
Y Cyflenwad a argymhellir ar gyfer y Bwrdd	15
Nifer aelodau'r Bwrdd ar gychwyn y cyfnod adrodd	10
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	12
Nifer yr aelodau newydd yn ymuno yn ystod y cyfnod adrodd	3
Nifer yr aelodau a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd	1
Nifer y Cyfarfodydd Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Nifer yr ymweliadau â'r Sefydliad	344
Nifer yr adolygiadau arwahanu	Dd/B
Nifer yr adolygiadau arwahanu a fynychwyd	Dd/B
Dyddiad yr Adolygiad Perfformiad Tîm Blynnyddol	Tach 2015

### **Ceisiadau i'r IMB yn ystod y cyfnod adrodd**

COD	PWNC	BLWYDDYN
A	Llety	0
B	Dyfarniadau	0
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys crefydd)	0
D	Addysg/cyflogaeth/hyfforddiant	2
E1	Teulu/ymweliadau gan gynnwys post a ffôn	0
E2	Cyllid/Tâl	2
F	Yn ymwneud â bwyd/y gegin	4
G	Yn ymwneud ag Iechyd	1
H1	Eiddo yn y sefydliad presennol	2
H2	Eiddo yn ystod trosglwyddo i mewn yn y sefydliad arall	2
H3	Ffreutur, Cyfleusterau, siopa Catalog, Argos	0
I	Yn ymwneud â dedfryd (ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, aildroseddu ac ati)	9
J	Pryderon Staff/Carcharorion gan gynnwys bwlio	4
K	Trosglwyddiadau	1
L	Amrywiol	8
	Cyfanswm nifer y Ceisiadau i'r IMB	<b>35</b>
	O'r cyfanswm - y nifer Mynediad Cyfrinachol oedd	12